# Prosiect Arbenigwyr trwy Brofiad:

# Ffurflen Hawlio Costau Cyfranogwr

## 1. Pam mae gennym ni bolisi costau cyfranogwr?

Rydym yn awyddus i sicrhau bod cyfranogwyr ein prosiect Arbenigwyr trwy Brofiad yn gallu sicrhau gwrandawiad heb wynebu unrhyw gostau ychwanegol wrth wneud hynny.

Nod y polisi yw:

- Darparu set glir o reolau fel bod cyfranogwyr yn gwybod yn union beth sy'n gymwys, a beth nad yw'n gymwys, ar gyfer cyflwyno cais am ad-daliad.
- Sicrhau bod cyfranogwyr yn cael eu trin yn deg, yn cael ad-daliad heb orfod aros amdano, ac yn derbyn y swm llawn am unrhyw gostau dilys a gafwyd pan yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r prosiect.
- Sicrhau ein bod ni, fel elusen, yn gallu rhoi sicrwydd i'n hymddiriedolwyr a'n cyllidwyr ein bod yn gwario'n cyllid yn ddoeth ac yn cael y gwerth gorau am arian.

Bydd pob cais am gostau'n amodol ar gael eu gwirio a'u hawdurdodi gan aelod o staff Cymorth Cymru.

## 2. Pa fath o weithgareddau sy'n gymwys i'w hawlio fel costau?

Bydd y gweithgareddau canlynol yn gymwys i'w hawlio fel costau, ond rhaid iddynt gael eu cytuno gyda'r prosiect cyn bod y gweithgaredd yn digwydd:

- Mynychu cyfarfodydd o'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Terfyn ar Ddigartrefedd
- Mynychu cyfarfodydd neu grwpiau ffocws wyneb-yn-wyneb
- Mynychu ymweliad neu sesiwn hyfforddi wyneb-yn-wyneb a drefnir gan y prosiect
- Gweithgareddau eraill y cytunir arnynt gan y prosiect ar sail achos-wrth-achos

## 3. Pa gostau sy'n cael eu cynnwys?

Byddwn yn ad-dalu costau sy'n berthnasol i'r categorïau costau canlynol, ond rhaid cytuno'r rhain gyda'r prosiect cyn bod y gweithgaredd yn digwydd.

### 3.1. Teithio

Dylai cyfranogwyr geisio defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus pan fo hynny'n ymarferol, er mwyn lleihau'r costau a'r effaith ar yr amgylchedd. Lle bo hynny'n bosibl, gofynnwn i gyfranogwyr drefnu

eu taith cyn gynted ag y bo modd, a dewis yr opsiwn gorau. Rhaid cadw derbynebau neu docynnau gyda phrawf o'r gost, y man cychwyn a man diweddu'r daith er mwyn eu cyflwyno pan yn hawlio costau teithio.

Os nad yw defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ymarferol, caiff y cyfranogwyr deithio mewn car. Byddwn yn ad-dalu cost y tanwydd hyd at 45c y filltir am y 10,000 milltir cyntaf, yn unol â chyfraddau milltiroedd cymeradwy Llywodraeth y DU. Byddwn hefyd yn talu 5c y filltir yn ychwanegol os oes cyfranogwr arall yn teithio yn y car gyda'r gyrrwr.

Cyfrifoldeb y cyfranogwr yw sicrhau bod y cerbyd wedi ei drethu a'i yswirio, a'i fod mewn cyflwr diogel. Lle bo gweithiwr cymorth yn gyrru'r cyfranogwr i'r digwyddiad, dylent hawlio'r gost y filltir o'u sefydliad eu hunain fel rhan o'u polisi costau staff.

Byddwn hefyd yn ad-dalu costau parcio lle bo hynny'n angenrheidiol i alluogi'r person i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r prosiect.

Ni fyddwn yn ad-dalu unrhyw ddirwyon, cosbau na chostau moduro a bennir.

### 3.2. Bwyd a Diod

Byddwn yn ceisio sicrhau bod lluniaeth ysgafn ar gael pan fo cyfranogwyr yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r prosiect yn ystod amser prydau bwyd.

Os na ddarperir lluniaeth yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn ad-dalu cost pryd o fwyd hyd at y symiau canlynol:

- Gellir hawlio cost brecwast hyd at £10 pan fo angen i gyfranogwr aros oddi cartref dros nos i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r prosiect.
- Gellir hawlio cost cinio hyd at £10 pan fo cyfranogwr yn ymwneud â gweithgareddau prosiect yn ystod amser cinio.
- Gellir hawlio cost pryd nos hyd at £20 os yw cymryd rhan yng ngweithgareddau'r prosiect yn golygu bod y person yn gorfod bod oddi cartref ar ôl 7 o'r gloch y nos.

Ni ellir gwneud cais am gostau'n ymwneud ag alcohol.

### 3.3. Llety

Gall fod ambell achlysur pan fo angen i'r cyfranogwyr aros dros nos yn rhywle. Ar yr achlysuron hyn, dylai Cymorth Cymru drefnu'r llety o flaen llaw. Byddwn ni'n talu hyd at £80 y noson am lety.

### 3.4. Costau eraill

Rydym yn fodlon ystyried ad-dalu costau eraill sy'n codi yn sgil cyfranogi yng ngweithgareddau Arbenigwyr trwy Brofiad, ond rhaid i'r ceisiadau hyn gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig a'u cytuno gyda'r prosiect cyn i'r gweithgaredd ddigwydd.

## 4. Sut ydw i'n gwneud cais am gostau?

Rhaid i gyfranogwyr gwblhau ac arwyddo ffurflen gostau cyfranogwr i hawlio unrhyw gostau.

Ac eithrio ceisiadau am daliad yn ôl milltiroedd, dylai pob gwariant fod ynghlwm wrth dderbynneb, anfoneb neu rhyw ddull arall o brofi'r gwariant. Pwrpas hyn yw profi bod y gwariant wedi ei wneud. Nid yw derbynebau cardiau credyd neu ddebyd yn briodol ar eu pen eu hunain oni bai eu bod yn cynnwys manylion yr eitemau a brynwyd.

Yn achos ceisiadau am daliad yn ôl milltiroedd, rhaid i chi gynnwys cod post dechrau a diwedd y daith.

Gellir anfon y ffurflen gais am gostau, a'r derbynebau, at EBE@cymorthcymru.org.uk

Dylid hawlio unrhyw gostau o fewn dau fis i gynnal y gweithgaredd. Mae hyn yn ein helpu i gynllunio a chadw trefn ar y cyllid.

Caiff y cais am gostau ei wirio a'i gymeradwyo gan y cyswllt gwirfoddoli perthnasol cyn cael ei gyflwyno ar gyfer taliad.

## 5. Sut byddaf i'n cael fy nhalu?

Gallwn dalu costau trwy drosglwyddiad banc (BACS), sef ein dewis o ddull. Gwneir taliadau BACS o fewn 10 diwrnod gwaith i gyflwyno ffurflen gais am gostau wedi ei llenwi'n gywir. Yn y rhan fwyaf o achosion gwneir y taliad yn gynharach. Os nad oes cyfrif banc gan y cyfranogwyr, gallwn weithio gyda hwy a'u gweithiwr cymorth i ddod o hyd i ddull o sicrhau eu bod yn derbyn ad-daliad am eu rhan yn y prosiect.

## 6. Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth rydw i'n ei rhoi?

Trwy gyflwyno cais am gostau, gofynnir i chi rannu rhai manylion penodol yn cynnwys eich cyfeiriad, sut i gysylltu â chi, a manylion banc. Rydym yn casglu'r wybodaeth hon yn unig er mwyn gallu prosesu eich cais am gostau. Rydym yn cadw cofnod o'r manylion o fewn ein bas data cyllid canolog, a hynny am resymau cyfrifyddu statudol ac er mwyn gallu hwyluso unrhyw geisiadau dilynol yn unol â'r rheoliadau cyfredol ar ddiogelu data. Ni chaiff unrhyw fanylion o'r bas data ariannol fyth eu defnyddio i unrhyw bwrpas heblaw i wneud taliad, ac ni chânt fyth eu pasio ymlaen i unrhyw drydydd parti.

## 7. Unrhyw gwestiwn arall?

Mae croeso i chi gysylltu â'r prosiect yma: EBE@cymorthcymru.org.uk